

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ionawr 4ydd, 2018 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans (Cadeirydd); Margaret Griffith (Is gadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Angela Williams; Ceri Jones; Tegid Jones; Aled Lloyd Evans; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Sion Aled Jones ac Anwen Jones.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ragfyr 7fed, 2017.
3. Arwyddwyd cadarnhad taliad BACS gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Praesept. Cadarnhawyd penderfyniad y Pwyllgor Busnes gyfarfu yn gynharach heno i osod y Praesept am y flwyddyn Ebrill 2018/Mawrth 2019 sef £15,000-, yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol. Mae angen y swm yma i allu rhoi y gyllideb bennwyd ar waith.
7. Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
Doedd dim ceisiadau i'w trafod y mis yma..
8. Un Llais Cymru- Dod o hyd i Hyfforddiant – Y Gogledd, Chwefror i Orffennaf 2018. Derbyniwyd er gwybodaeth. Bydd manylion pellach yn nêd ymlaen.
9. Llywodraeth Cymru, Cynrychiolaeth Gymunedol- Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Roedd gofyn am wybodaeth am fod o leiaf un sedd wag ar y cyngor cymuned; roeddent am wybod sut aeth y Cyngor ati i gyfethol aelod/au i lenwi'r sedd/au ar y Cyngor. Penderfynwyd ateb yn dweud y rhoddwyd poster i fyny yn y manau arferol yn y wardiau, rhoddwyd y wybodaeth ar safle we'r Cyngor a gofynnwyd yn bersonol i unigolion. Rhoddwyd wybod nad oes sedd wag ar y Cyngor erbyn hyn.
10. Llywodraeth Cymru, mae angen eich help! Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Penderfynwyd aros am ymateb Un Llais Cymru achos eu bod hwy wedi cynnal cyfarfodydd ymgynghorol i drafod y pedwar cwestiwn craidd a bu cynrychiolaeth o'r Cyngor yma yn un o'r cyfarfodydd hynny, yr un gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

11. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy – Materion gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans.

1. Cyflwr y lôn gefn o Lanystumdwy i Gricieth; mwd a baw, ffosydd yn gorlifo, gwteri a pheipiau mewn ffosydd wedi cau ac yn achosi llif.
2. Cerrig wedi syrthio o glawdd Allt Caban.

Penderfynwyd cysylltu gydag adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd.

Rhoslan /Ynys

Chwilog – * Trwy ganiatâd y Cadeirydd: Mater gan y Cynghorydd Trefor W Jones.

Lôn Ysgubor Hen am Blas Talhenbont; tyllau angen eu cau a ffôs ochr Ysgubor Hen i Dalar Deg wedi cau. Penderfynwyd cysylltu gydag adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Pencaenewydd/Sardis - Mater gan y Cynghorydd William Ifor Hughes.

Mae cais i gael manau pasio ar y ffordd rhwng Pencaenewydd a Sardis. Penderfynwyd cysylltu gydag adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd.

Llangybi – Cafwyd cwyn bod dŵr dros y ffordd ger mynedfa Coed Cae Gwyn.

Penderfynwyd cysylltu gydag adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal gofynnwyd am gael cyfarfod safle gyda swyddogion adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

12. Cyfethol Mr Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy i gynrychioli Ward Llanystumdwy ar Gyngor Cymuned Llanystumdwy. Penderfynwyd ei gyfethol a'i wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor pryd y caiff arwyddo Datganiad Derbyn Swydd.

Materion Ariannol

13. Derbyn ail daliad cwmni Lightsource ynghylch fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron Estate i'r Cyfrif Budd Cymunedol, £3,735.49c. Penderfynwyd derbyn.

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Rhodddwyd adroddiad lawn gyda'r balansau yn y tri chyfrif, yn cael eu cefnogi gan yr adroddiadau banc. Mae'r arian ad-daliad Arian Llwybrau, fydd dros £500- i ddod eto; gwnaethpwyd y cais amdano ymmis Rhagfyr 2017. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

15. Gohebiaeth ynghylch cysylltiad band eang i Neuadd Llanystumdwy a Festri Capel Pencaenewydd. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Gadeirydd pwyllgor Neuadd Llanystumdwy; erbyn hyn deallwn bod y cysylltiad wi fi wedi'i wneud. Roedd swyddogion Capel Pencaenewydd hefyd yn diolch ond yn gofyn am gael ad-daliad bob chwe mis. Penderfynwyd caniatâu.

16. Anfonebau angen eu talu:

a. Swyddfa Archwilio Cymru, Archwiliad o Gyfrifon 2016/17, £203.40c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

b. Cyflog chwarter y Clerc, Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2017, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.467c. = £942-

1. Cyllid a Thollau EM; £942- x 20% = £188.40c; taliad siec rhif 100968. Penderfynwyd ei dalu.

2. Cyflog y Clerc net = £753.60c; taliad siec rhif 100969. Penderfynwyd ei dalu.

3. Costau Chwarterol y Clerc £145.57c; taliad siec rhif 100970. Penderfynwyd ei dalu.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

c. Neuadd Llanystumdwy am logi'r Neuadd ar gyfer 4 cyfarfod o'r Cyngor £40-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

Ch Trefn, Torri a chlirio tir y Cyngor gyferbyn â rhes Maenywern, Llanystumdwy £150-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

17. Gwasanaeth Bysys drwy Rhoslan.

Cafwyd cwynion am y newid diweddar yn y gwasanaeth o Glan Dwyfach drwy Roslan i Gricieth ac am Borthmadog. Penderfynwyd anfon at adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn mynegi pryder am hyn ac yn mynnu bod y gwasanaeth yn cael ei adfer mor fuan â phosib.

Atgoffwyd o ddyddiad cau am geisiadau am gymorth ariannol sef Ionawr 15fed, 2018.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.

